

Data Cyfrifiad 2011 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Trefniadau Byw

Trefniadau Byw	Sir Gaerfyrddin		Cymru		Cymru a Lloegr	
Pob person 16 oed a throsodd mewn aelwydydd	148,278		2,455,794		44,533,150	
Byw fel Cwpwl						
Wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw	72,635	49.0%	1,132,855	46.1%	20,429,310	45.9%
Cyd-fyw	15,930	10.7%	285,241	11.6%	5,310,090	11.9%
Ddim yn byw fel cwpwl						
Sengl (erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil o'r un rhyw)	33,012	22.3%	613,871	25.0%	11,475,890	25.8%
Wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw	1,436	1.0%	26,123	1.1%	640,114	1.4%
Wedi gwahanu (ond yn dal yn briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw yn gyfreithiol)	2,362	1.6%	43,691	1.8%	941,885	2.1%
Wedi ysgaru neu wedi bod mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol	10,807	7.3%	176,590	7.2%	2,922,463	6.6%
Gweddw neu wedi colli partner sifil o'r un rhyw trwy farwolaeth	12,096	8.2%	177,423	7.2%	2,813,398	6.3%

Diffiniadau

Aelwyd:

Diffinnir aelwyd fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta. Rhaid i aelwyd gynnwys o leiaf un person sy'n byw fel arfer yn y cyfeiriad. Nid yw grŵp o breswylwyr byrdymor sy'n cyd-fyw â'i gilydd na grŵp o bobl mewn cyfeiriad lle mai dim ond ymwelwyr sy'n aros yn cael eu cyfrif fel aelwyd.

Cyd-fyw:

Dywedir bod dau unigolyn yn cyd-fyw os ydynt yn byw gyda'i gilydd fel pâr ond nad ydynt yn briod â'i gilydd nac mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n byw gyda phartner o'r un rhyw. Gall unigolyn sy'n cyd-fyw fod yn briod neu fod mewn partneriaeth sifil (â rhywun nad yw'n byw yn y cartref) ond ni ddangosir ei fod yn briod, mewn partneriaeth sifil nac wedi gwahanu mewn canlyniadau sy'n ymwneud â threfniadau byw am fod cyd-fyw yn y dosbarthiad hwn yn cael blaenoriaeth dros statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol.

Byw fel pâr:

Mae'r term 'byw fel pâr' yn cynnwys pobl sy'n cyd-fyw fel pâr ac sydd naill ai'n briod, mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw, neu'n cyd-fyw gyda phartner o'r un rhyw.

Ddim yn byw mewn pâr:

Gall unigolyn 'nad yw'n byw mewn pâr' gael ei ddsbarthu'n briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw os yw'n dynodi ei statws priodasol fel priod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw ond nad oes priod na phartner o'r un rhyw yn byw yn yr aelwyd.